

202- Rhif (Cy.)

202- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Llanuwchllyn, Gwynedd) (Terfyn
Cyflymder 20 mya Rhan-amser)
202-

The A494 Trunk Road
(Llanuwchllyn, Gwynedd) (Part-
time 20 mph Speed Limit) Order
202-

Gwnaed *** 202-

Made *** 202-

Yn dod i rym *** 202-

Coming into force *** 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A494, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A494 trunk road and in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of North Wales Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanuwchllyn, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 202- a daw i rym ar **** 202-.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Llanuwchllyn, Gwynedd) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 202- and this Order comes into force on **** 202-.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

Interpretation

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802 (Cy. 175). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) S.I. 1990/1656, as amended by S.I. 2020/802 (W.175). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 96 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4403 hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno yn Llanuwchllyn, Gwynedd.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

202-

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead trunk road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road that extends from a point 96 metres south of the centre-point of its junction with the B4403 to a point 150 metres north of the centre-point of that junction at Llanuwchllyn, Gwynedd.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

202-

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494
(LLANUWCHLLYN, GWYNEDD) (TERFYN
CYFLYMDER 20 MYA RHAN-AMSER) 202-**


Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya ar y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 96 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4403 hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno yn Llanuwchllyn, Gwynedd. Bydd y terfyn cyflymder 20 mya yn weithredol yn rhan-amser a dim ond am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny y bwriedir iddo fod yn gymwys.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 26 Mai 2021 ymlaen, gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd> neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1459526.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 16 Mehefin 2021. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (LLANUWCHLLYN,
GWYNEDD) (PART-TIME 20 MPH SPEED
LIMIT) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under section 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 20 mph speed limit on the length of the A494 trunk road that extends from a point 96 metres south of the centre-point of its junction with the B4403 to a point 150 metres north of the centre-point of that junction at Llanuwchllyn, Gwynedd. The 20 mph speed limit will operate on a part-time basis and is only intended to apply for limited periods of the day during school term time when indicated by traffic signs.

During a period of 21 days from 26 May 2021, a copy of the proposed Order, plan and Statement of Reasons for making the Order can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1459526.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to Transportordersbranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 16 June 2021. Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a public inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494
(LLANUWCHLLYN, GWYNEDD) (TERFYN
CYFLYMDER 20 MYA RHAN-AMSER) 202-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig i sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn cysylltiad â symudiadau cerddwyr ger Ysgol O M Edwards ac i ddiogelu defnyddwyr y ffordd ar gefnffordd yr A494 yn Llanuwchllyn, Gwynedd.

Mae angen y terfyn cyflymder is er mwyn gostwng cyflymder traffig ger yr ysgol, yn enwedig pan fydd disgyblion yn teithio i safle'r ysgol ac ohono. Dim ond am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol a dim ond pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny y disgwylir i'r terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser fod yn weithredol.

Roedd cyfyngiad 20 mya rhan-amser mewn grym yn flaenorol yn y lleoliad hwn yn rhinwedd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig dros dro (O.S. 2016 Rhif 1180 (Cy. 287)). Mae'r Gorchymyn hwnnw wedi peidio â bod mewn grym a bydd y Gorchymyn arfaethedig yn ailgyflwyno'r cyfyngiad a bydd yn parhau mewn grym hyd nes y caiff ei ddirymu.

**THE A494 TRUNK ROAD (LLANUWCHLLYN,
GWYNEDD) (PART-TIME 20 MPH SPEED
LIMIT) ORDER 202-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is necessary to ensure the safety of the public in connection with pedestrian movements near Ysgol O M Edwards and to safeguard road users on the A494 trunk road at Llanuwchllyn, Gwynedd.

The reduced speed limit is required to reduce the speed of traffic near the school, especially when pupils are travelling to and from the school site. The part-time 20 mph speed limit is only expected to operate for limited periods of the day during school term time and only when indicated by traffic signs.

A part-time 20 mph restriction was previously in force at this location by virtue of a temporary Traffic Regulation Order (S.I. 2016 No. 1180 (W. 287)). That Order has ceased to be in force and the proposed Order will reintroduce the restriction and it will remain in force until it is revoked.